

Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion

Dylai fod gan bob sefydliad weithdrefn i ddelio ag adborth gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, neu sydd gan gyswllt â'r gwasanaethau.

Os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth rydych yn ei dderbyn, mae gennych hawl i gwyno. Mae'n well ceisio datrys unrhyw broblemau neu bryderon cyn gynted ag y maent yn codi. Mae problemau bychain yn gallu cael eu datrys yn eithaf cyflym fel arfer. Gall cwynion sy'n fwy cymhleth gymryd llawer o amser i'w datrys yn llawn.

Hwyrach y byddwch hefyd yn dymuno rhoi adborth cadarnhaol ar wasanaeth rydych yn arbennig o fodlon gydag o, ac rydych yn meddwl sydd wedi gweithio'n dda. Mae hyn o gymorth mawr i sefydliadau pan fyddant yn adolygu ac yn cynllunio gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau hefyd yn croesawu syniadau ar sut y gallant wneud pethau'n wahanol ac yn well.

Cyngor Gwynedd

Dylid gwneud cwynion, rhai ffurfiol ac anffurfiol, yn uniongyrchol i'r adran berthnasol yn y Cyngor. Os ydych yn ansicr pwy ddylech chi gysylltu â hwy, ffoniwch Galw Gwynedd ar **01766 771000** a byddant yn eich cysylltu i'r adran/person perthnasol.

Mae **Gwasanaethau Cymdeithasol** wedi cynhyrchu llyfryn, *Gwrando, Ymateb, Gwell*. Mae copïau ar gael yn holl lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor. Y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer rhoi adborth ar wasanaethau yw'r Uned Gofal Cwsmer, a byddant yn gwrando ar unrhyw gŵyn ac yn eich helpu i'w datrys.

Swyddog Gofal Cwsmer

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Cyngor Gwynedd

Stryd y Jêl

Caernarfon LL55 1SH

Ffôn: **01286 679549**

e-bost: [gcgc@gwynedd.llyw.cymru](mailto:gcg@gwynedd.llyw.cymru)

Swyddog Gofal Cwsmer

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Cyngor Gwynedd

Stryd y Jêl

Caernarfon LL55 1SH

Ffôn: **01286 679151**

e-bost: [gcgc@gwynedd.llyw.cymru](mailto:gcg@gwynedd.llyw.cymru)

Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys **cartrefi gofal** a **darparwyr gofal** eraill (yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol). Gallwch gysylltu â hwy os oes gennych bryder neu gŵyn am ddarparwr gwasanaeth maent yn ei reoleiddio, a byddant yn gwirio i wneud yn siŵr ei fod yn darparu gwasanaeth diogel, neu i weld a ydyw'n methu â chyrraedd gofynion ac amodau ei gofrestrriad. Ni allant ddelio â chwynion sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau unigol, ond byddant yn cyfeirio at y sefydliad sydd yn y lle gorau i helpu.

Arolygiaeth Gofal Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

Ffôn **0300 7900 126**

e-bost agc@llyw.cymru

Os ydych yn dymuno cwyno am **gynghorydd**, mae angen i chi gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gallwch gysylltu gydag ef hefyd ynglŷn ag unrhyw gŵyn sydd gennych am unrhyw wasanaeth cyhoeddus, boed hwnnw'n awdurdod lleol neu'n wasanaeth ieuchyd, os nad ydych yn hapus gyda'u hymateb i'ch cwyn. Gallwch hefyd gwyno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus heb gysylltu â'r gwasanaeth statudol/cyhoeddus ymlaen llaw. Dyma'r manylion cyswllt:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: **0300 790 0203**

e-bost holwch@ombwdsmon.cymru

Mae hefyd yn bosib anfon e-bost o'r wefan www.ombwdsmon.cymru neu llwytho y ffurflen briodol i lawr.

Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion

Iechyd

Mae gan feddygon, deintyddion, fferyllwyr ac optegwyr eu gweithdrefnau cwyno eu hunain. Bydd staff yn y lleoliadau hyn yn gallu rhoi manylion i chi ar sut i gwyno. Gallwch hefyd gysylltu â swyddfa leol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i Wynedd:

Eryldon

Ffordd Campbell

Caernarfon

Gwynedd LL55 1HU

Ffôn: **03000 852345**

Os oes gennych bryderon am driniaeth rydych chi wedi'i derbyn gan y GIG, neu am driniaeth mae'r person rydych yn gofalu amdano wedi'i derbyn gan y GIG, er enghraifft, tra roeddech yn yr ysbyty neu mewn clinig, mae'n well codi'r pryder gyda'r tîm dan sylw. Fodd bynnag, os oes well gennych beidio, neu os ydych yn anfodlon â'u hymateb, gallwch gysylltu â'r Tîm Pryderon yn Ysbyty Gwynedd:

Tîm Pryderon

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ysbyty Gwynedd

Bangor

Gwynedd LL57 2PW

Ffôn: **03000 851234**

e-bost BCU.TimPryderon@wales.nhs.uk

Am sylwadau ac awgrymiadau e-bostio'r Tîm Profiad Cleifion ar BCU.PatientExperience@wales.nhs.uk

Cofiwch hefyd y gallwch gyflwyno cwynion am driniaeth a gwasanaethau gan y GIG i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gweler uchod).

Mae **Llais Gogledd Cymru** wedi cymryd lle **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru**. Os oes gennych sylw neu gŵyn am wasanaethau iechyd,

Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion

gall Llais Gogledd Cymru eich cefnogi drwy roi gwybodaeth a chyngor ar yr opsiynau sydd ar gael i gleifion a'u gofalwyr.

Llais Bangor

11 Llys Castan

Ffordd y Parc

Parc Menai

Bangor

Gwynedd LL57 4FH

Ffôn: **01248 679284**

e-bost: northwalesenquiries@llaiscymru.org